Cyfrifwyr Huw Aled Accountants

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cyfrifwyr Huw Aled Accountants

# CYNLLUN DATBLYGU’R GYMRAEG

Wedi ei baratoi gyda chymorth
Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg
Derbyniwyd cydnabyddiaeth y Comisiynydd ar 15 Gorffennaf 2021

Cynnig Cymraeg

## Ein sefydliad

Sefydlwyd Cyfrifwyr Huw Aled Accountants ym mis Chwefror 2020 er mwyn rhoi cymorth i unigolion gyda'u cyfrifon a'u trethi. Rydym yn arbenigo mewn cyfrifon a threthi ar gyfer unigolion hunan gyflogedig, landlordiaid, uwch reolwyr ac elusennau.

Rydym yn gwasanaethu cwsmeriaid ar draws Cymru, Lloegr a thu hwnt, gan gynnwys Prydeinwyr alltud yn Singapore, Malaysia, Sbaen, Ffrainc, Yr Almaen ac Oman.

Mae partneriaid y busnes, Huw Roberts ac Aled Wyn Thomas, yn gweithredu polisi o gadw desg glir, i'w galluogi i ddelio gydag unrhyw achos yn syth.

## Pwysigrwydd y Gymraeg i ni a’n cwsmeriaid

Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i Huw ac Aled gan eu bod nhw'n dau yn Gymry Cymraeg iaith gyntaf. Bwriad y Cynllun hwn yw crynhoi argaeledd y gwasanaethau a gynigir gan y cwmni drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rhan helaeth o gwsmeriaid y cwmni yn Gymry ac mae Huw ac Aled yn ymfalchïo yn eu gallu i ddarparu gwasanaeth gwbl Gymraeg, gan gynnwys delio gyda'r Swyddfa Dreth Iaith Gymraeg ym Mhorthmadog ar gyfer unrhyw ymholiad treth.

Mae pob cwsmer yn gallu derbyn gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a hynny wedi ei deilwra i’w ofynion personol. Er enghraifft, gallwn baratoi cyfrifon trwy gyfrwng y Gymraeg a'u cyfieithu os oes angen eu rhannu gyda sefydliadau eraill, megis banciau neu gynghorwyr morgais.

## Ein Cynnig Cymraeg

Cynigir ein holl wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys:

- **Cyfrifon hunan gyflogedig**
- **Cyfrifon rhent i landlordiaid**
- **Cyngor treth, gan gynnwys treth incwm, treth ar eiddo a threth etifeddiaeth**
- **Cyfrifon elusen, gan gynnwys archwiliad annibynnol**
- **Trafodaethau ffurfiol gyda'r Swyddfa Dreth, gan gynnwys llythyron a galwadau ffôn.**

## Y swyddog cydlynu

Aled Wyn Thomas, un o'r partneriaid, sydd yn gyfrifol am y cynllun hwn ac sy'n bwynt cyswllt gyda'r Tîm Hybu.

## Cyfnod adolygu

Adolygiad blynyddol bob mis Mawrth.